**ATODIAD 5**

**YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2024/25**

1. **Cefndir:** Y bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd eleni, gan fod y Cyngor (yn wahanol i rai awdurdodau lleol) yn ariannu chwyddiant, incrementau cyflog, a demograffi.

2. **Chwyddiant:** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£9.4m** eleni ar gyfer cynnydd chwyddiant, gan gynnwys chwyddiant tâl a phensiwn athrawon. Bydd hyn yn cyfarch cynnydd costau cyflogau athrawon o 6.5% am y 5 mis Ebrill – Awst, sef effaith blwyddyn lawn cytundeb tâl Medi 2023, a hefyd cost cynnydd pellach o 3.5% amcangyfrifir ar gyfer cytundeb tâl Medi 2024 (am y 7 mis Medi 2024 – Mawrth 2025). Mae cynnydd cyflog staff ategol Ebrill 2023 hefyd wedi'i gynnwys ac amcan pellach o 5% Ebrill 2024. Wrth gwrs, bydd dyraniadau ysgolion am ynni, gan gynnwys 150% am nwy, hefyd yn codi gyda lefel chwyddiant perthnasol.

3. **Pensiwn Athrawon:** Bydd cynnydd yn y gyfradd cyfraniad cyflogwr ar bensiwn athrawon o 5% o Ebrill 2024. Disgwylir grant penodol gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2024/25 i ariannu'r cynnydd. Nid oes cadarnhad o hyn wedi ei dderbyn hyd yn hyn.

4. **Incrementau Cyflog Staff:** Ychwanegir £547k i gyllideb y Cyngor ar gyfer 2024/25 i ymdrin ag incrementau a lleihad trosiant staff o -£188k.

5. **Demograffi (niferoedd disgyblion):** Bydd y gyllideb ysgolion yn lleihau eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2023 i gyfrifo dyraniadau 2024/25. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith lleihad niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn lleihau -£48k, sy'n cynnwys lleihad -£474k i'r sector Gynradd, cynnydd +£167k i'r sector Uwchradd a chynnydd yn y sector Arbennig o +£259k. Bydd ysgolion unigol yn disgwyl cynnydd / gostyngiad yn eu dyraniadau yn gymesur â'r newid mewn niferoedd disgyblion yn yr ysgolion.

6. **Arbedion a Thoriadau 2023/24 a 2024/25:** Roedd y Cyngor wedi ymdrechu i warchod cyllidebau ysgolion ers 2015/16, gyda 13% o'r arbedion wedi'i gynaeafu o'r ysgolion sy'n cynrychioli 30% o wariant net y Cyngor. Fodd bynnag, erbyn 2023/24 roedd yn anorfod byddai rhaid gweithredu arbedion a thoriadau ar yr ysgolion. Penderfynodd y Cyngor Llawn 2 Mawrth 2023, wrth sefydlu cyllideb 2023/24, i gapio'r toriad i

uchafswm o 3% ar ysgol prif lif unigol a dim toriad ar y sector arbennig. Hefyd, penderfynwyd gweithredu'r toriad dros ddwy flynedd ariannol, sydd yn cyd-fynd efo blwyddyn academaidd ysgol. Roedd cyfanswm y toriad yn £1.966m ac yn rhannu £1.147m (7/12fed) yn 2023/24 ac yna £0.819m (5/12fed) yn 2024/25.

7. **Grantiau Penodol Addysg:** Ymddengys y bydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2024/25 ar lefel debyg i 2023/24, ond disgwylir y bydd peth gwaith yn cael ei gynnal i uno rhai grantiau yn y maes Addysg.

8. **Casgliad Cyffredinol:** Wedi cymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion yn uwch yn 2024/25 o'i gymharu gyda 2023/24. Ymhellach, argymhellir fod bidiau parhaol yn cael eu cymeradwyo ym maes Addysg, yn benodol ym maes trafnidiaeth ysgolion. Mae mwy o fanylion i'w cael yn Atodiad 2.